

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd 2020

PWNC

Eitem 1:ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNIAD

Bu i Cyng. Phil Wyn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ei ethol yn gadeirydd ar gyfer 2020/21.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n ofyniad statudol i ethol Cadeirydd y Cydbwyllgor yn flynyddol.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd 2020

PWNC

Eitem 2:ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNIAD

Bu i Cyng Meirion Jones, Cyngor Sir Ynys Môn, yn Is-gadeirydd ar gyfer 2020/21.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n ofyniad statudol i ethol Is-Gadeirydd y Cydbwyllgor yn flynyddol.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd 2020

PWNC

Eitem 7:TREFNIADAU LLYWODRAETHU : ARCHWILIO MEWNOL

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y trefniadau fel y'i nodwyd ym mhwynt 4.1 o'r adroddiad, gan ychwanegu fel eithriad lle'n briodol, y bydd angen i rai adroddiadau archwilio unigol gael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor pan fydd angen yn codi, yn hytrach nac aros am yr adroddiad blynyddol.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn ystod cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor bu i'r aelodau ofyn i Reolwr Gyfarwyddwr GwE, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd i adolygu trefniadau llywodraethu ac i adrodd yn ôl yn y cyfarfod canlynol.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd 2020

PWNC

Eitem 8:ADRODDIADAU ARCHWILIADAU MEWNOL

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiadau gan nodi bod rheolaeth a phrosesau priodol a digonol mewn lle, ac felly ni fydd angen cyflwyno eitemau cyffelyb i'r Cydbwyllgor yn y dyfodol, ar wahân i'w crybwyll yn adroddiad blynyddol Rheolwr Archwilio'r awdurdod lletyol i'r Cydbwyllgor.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Fel y consortiwm rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru mae GwE yn cydlynu a gweinyddu'r grantiau rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru. Cynhelir nifer o archwiliadau ar agweddau penodol ar reolaethau, gweithdrefnau a phrosesau yn flynyddol.

Mae'r archwiliadau yn cadarnhau bod rheolaeth a phrosesau priodol a digonol mewn lle o fewn GwE, yr awdurdod lletyol a'r awdurdodau lleol wrth weinyddu'r grantiau ac yn bodloni amodau a thelerau Llywodraeth Cymru. Fel y nodwyd yn y penderfyniad blaenorol bydd GwE yn rhannu'r adroddiadau hyn â'r Cydbwyllgor fel eu bod yn ymwybodol o'r adroddiadau.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd
2020

PWNC

Eitem 9:COFRESTR RISG

PENDERFYNIAD

Bu i'r Cydbwyllgor adolygu cynnwys y gofrestr ac i dderbyn y wybodaeth.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru. Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw sydd yn cael ei hadolygu yn gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cydbwyllgor yn flynyddol, a pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cydbwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD
Error! Unknown document property name.



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd
2020

PWNC

Eitem 10:CYLLIDEB - MONITRO AIL CHWARTER

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen diweddarau aelodau'r Cyd-bwyllgor ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidebol 2020/21. Nodwyd fod cyllideb 2020/21 GwE dan reolaeth, er gwaethaf effaith Covid-19.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd
2020

PWNC

Eitem 11:RHAGLEN TRAWSNEWID ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr offeryn hunan asesu a'r Cynnig Proffesiynol Anghenion Dysgu Ychwanegol fydd yn cefnogi'r Awdurdodau Lleol a'r ysgolion i weithredu'r diwygiadau fel yr amlinellir yng Nghod Anghenion Dysgu Drafft Cymru.

Gofynnwyd am adroddiad pellach i'r cyfarfod nesaf yn nodi sut y bydd yr offeryn hunanasesu yn gweithio ac i nodi unrhyw oblygiadau ariannol fydd o ganlyniad i'r Cod Anghenion Dysgu drafft.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae gan Awdurdodau Lleol ac asiantaethau perthnasol ddyletswydd i ystyried y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn derfynol yng Ngwanwyn 2021. Rhaid i Awdurdodau Lleol ac asiantaethau priodol sicrhau fod eu polisiau, eu harferion a'u gwasanaethau gwybodaeth a chyngor yn ystyried gofynion cyfreithiol y Ddeddf yn llawn.

Bu i'r Tîm Trawsnewid ADY rhanbarthol gynhyrchu offeryn hunanasesu er mwyn cefnogi Awdurdodau Lleol i asesu pa mor barod y byddant i weithredu'r Cod drafft.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd
2020

PWNC

Eitem 12: CANLYNIADAU 2020 - ADOLYGIAD ANNIBYNNOL Y GWEINIDOG ADDYSG

PENDERFYNIAD

Cytunwyd mai prif flaenoriaeth y rhanbarth dros y cyfnod nesaf fydd rhoi'r gefnogaeth briodol i'r ysgolion uwchradd i gefnogi dysgwyr CA4 a CA5 i gael eu hachredu'n deg. Er mwyn gweithredu hyn, cytunwyd i ddefnyddio refeniw wrth gefn sydd o ganlyniad i'r tanwariant.

Penderfynwyd ysgrifennu at y Gweinidog Addysg, yn gyntaf i ddiolch am ei chyhoeddiad ar y 10fed o Dachwedd ar y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau ar gyfer 2021, ac yn ail i nodi pryderon sydd yn codi o'r cyfarfod.

Penderfynwyd ysgrifennu at Geraint Rees, Cadeirydd y Grŵp Dylunio a Chynllunio, yn amlinellu'r pryderon a nodwyd..

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Dydd Llun, 17 Awst 2020, cadarnhaodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, y bydd graddau Safon Uwch, Safon UG, TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yng Nghymru bellach yn cael eu dyfarnu ar sail Graddau Asesu Canolfannau.

Yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg nododd y Gweinidog y bydd yn comisiynu adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau cyfres arholiadau haf 2020 a'i ystyriaethau ar gyfer 2021.

Nodwyd bod angen trafodaeth i ystyried unrhyw ymateb pellach sydd ei angen yn dilyn datganiad y Gweinidog Addysg ar 10 Tachwedd 2020 mewn perthynas â'r Adolygiad Annibynnol ac i ystyried pa gefnogaeth sydd ei angen ar ysgolion i weithredu'r argymhellion yn effeithiol

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd
2020

PWNC

Eitem 13:ADNODDAU DYSGU CYFUNOL

PENDERFYNIAD

Nodwyd a derbyniwyd yr adroddiad ac i gefnoi'r dull a'r model rhanbarthol i sicrhau parhad y dysgu yng Ngogledd Cymru.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Amlinellwyd y strategaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion i sicrhau parhad dysgu fel bod modd paratoi ar gyfer unrhyw darfu pellach allai ddigwydd dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd
2020

PWNC

Eitem 14:ADRODDIAD LLESIANT

PENDERFYNIAD

Nodwyd a derbyniwyd cynnwys yr adroddiad ac i gefnogi'r dull rhanbarthol o gefnogi lles plant a gweithlu'r rhanbarth.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Prif flaenoriaeth GwE yn y cyfnod hwn o newid a tharfu digynsail yw diogelwch plant a gweithlu'r rhanbarth ac i wneud popeth o fewn gallu GwE i gefnogi lles corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd
2020

PWNC

Eitem 15:ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd cynnwys yr adroddiad a chytunwyd i gynnal trafodaethau pellach yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Gofynnwyd i Estyn gynnal adolygiad thematig o ddulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi dysgu a dysgwyr sy'n agored i niwed yn ystod cyfnod COVID-19. Yn dilyn derbyn yr adolygiad, ni dderbyniwyd adborth ffurfiol gan Estyn hyd yma. Bydd adroddiad cryno cenedlaethol yn cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

TAFLEN BENDERFYNIAD



Dyddiad y Penderfyniad:

11 Tachwedd
2020

PWNC

Eitem 16:YSGOLION MEWN CATEGORI

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd cynnwys yr adroddiad achytunwyd ar y camau nesaf. Penderfynwyd ysgrifennu at Estyn yn gofyn am arweiniad ac eglurder buan ynglŷn â'r sefyllfa.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Roedd angen diweddarau aelodau'r Cydbwyllgor ar y sefyllfa bresennol o ran yr ysgolion sydd mewn Categori Statudol Estyn a Chategori Adolygu gan Estyn. Golyga'r sefyllfa ar hyn o bryd gyda phandemig COVID-19 bod ysgolion yn wynebu ystod o heriau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen. Mae'n debygol y bydd yr heriau hyn yn fwy mewn ysgolion sydd mewn categori statudol neu'r categori Adolygu gan Estyn.

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r grŵp gweithredol

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.
